


# CROESO I GYMRU: RHOI HWB I EFFAITH ECONOMAIDD TWRISTIAETH YNG NGHYMRU





Ebrill 2018

@FSB_Wales

**fsb.wales**

fsb

Experts in Business
Arbenigwyr mewn Busnes

# RHAGAIR

Mae cynllun newydd uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Cymru, a amlinellir yn "Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi", yn ddilys yn nodi twristiaeth fel sector allweddol yn economi Cymru, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at swyddi a thwf mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn amlinellu ymagwedd newydd at gymorth busnes, a ffocws newidiol yng ngweithrediadau Llywodraeth Cymru.

Mae FSB Cymru wedi ceisio deall busnesau twristiaeth o fewn ein haelodaeth, a'r cymorth a dderbyniant gan y Llywodraeth, yn well. Rydym yn gefnogol i ffordd newydd Llywodraeth Cymru o fynd ati, ac yn dymuno darparu tystiolaeth fel sylfaen i'r penderfyniadau a wnânt a'r opsiynau yn y dyfodol ar gyfer cymorth busnes.

Cafodd ein gwaith ei ysgogi ymhellach gan yr awgrym o "dreth twristiaeth" gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar ddiwedd 2017. Mae'r darn hwn o waith wedi ceisio deall yr ymatebiadau cyntaf i'r cynnig hwn, ac yn cynnig barn ar ei ymarferoldeb i Gymru.

Mae'r FSB wedi cynnal arolwg o'r aelodau, ac ymchwil desg er mwyn deall anghenion a dyheadau ein haelodau mewn twristiaeth yn well. Mae'r adroddiad hwn yn gosod canlyniadau'r ymarferiad hwn allan ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar hynny.

# CYFLWYNIAD

Mae twristiaid yn gwario tua £14 miliwn y dydd tra byddant yng Nghymru, sy'n dod yn tua £5.1 biliwn y flwyddyn[1], gyda thwristiaeth yn arbennig o bwysig i rai o ddaearyddiaethau rhanbarthol Cymru, yn arbennig yn y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru.



**Mae twristiaid yn gwario tua £14 miliwn y dydd tra byddant yng Nghymru, sy'n dod yn tua £5.1 biliwn y flwyddyn**

Fel pob sector o'r economi, mae twristiaeth yn cael ei dominyddu gan nifer fawr o gwmnïau bach iawn, gyda nifer llawer llai o gwmnïau mwy yn darparu ffigurau cyflogaeth nodedig ac yn gweithredu fel cyrchfannau allweddol i ymwelwyr. Mae twristiaeth yng Nghymru hefyd wedi'i grynhoi'n ofodol, yn arbennig o gwmpas y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ond hefyd gyda nifer fawr o ymwelwyr â Chaerdydd.

Mae cyfran fawr o dwristiaeth yng Nghymru yn cynnwys ymweliadau dydd gan ymwelwyr sy'n byw rywle arall yn y DU, mae tua 10m o dripiau i Gymru gan drigolion o rywle arall ym Mhrydain Fawr[2]. Her allweddol i Lywodraeth Cymru a Croeso Cymru yw cynyddu hyd yr arosiadau hyn, a'r gwariant sy'n digwydd o fewn iddynt.



**10 miliwn o dripiau i Gymru bob blwyddyn gan drigolion o rywle arall ym Mhrydain Fawr**

[1] https://businesswales.gov.wales/tourism/
[2] Llywodraeth Cymru (2016) Ystadegau Twristiaeth



**Mae 970,000 o bobl yn ymweld â Chymru o rywle arall yn y byd**

Mae 970,000 pellach o bobl yn ymweld â Chymru o rywle arall yn y byd, y mwyafrif o leoedd yn Ewrop (Gweriniaeth Iwerddon, Ffrainc a'r Almaen). Ar ôl Brexit rhaid inni sicrhau bod gan Gymru, a Llywodraeth Cymru bresenoldeb cryf yn y marchnadoedd hyn i hysbysebu Cymru – gall hyn fod yn swyddogaeth allweddol i'n swyddfeydd tramor, ac fe ddylai fod. Mae FSB Cymru wedi ymgyrchu'n hir hefyd dros ddatganoli Toll Teithwyr Awyr (APD) i Gymru[3].

Mae twristiaeth yn awr hefyd yn cael ei enwi'n "sector sylfaenol" yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi newydd Llywodraeth Cymru[4], ac mae hyn yn galw am rywfaint o feddwl gofalus ynghylch sut y gall y sector ffitio i ffordd newydd o fynd ati sy'n ceisio gwneud i economi Cymru gyflawni ar set ehangach o amcanion na "swyddi a thwf" traddodiadol.



**Mae twristiaeth yn awr yn cael ei henwi'n "sector sylfaenol" yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi newydd Llywodraeth Cymru**

Er mwyn hysbysu'r papur hwn, fe wnaethom arolwg o'n haelodau mewn twristiaeth a sectorau cysylltiedig. Ychwanegwyd at yr arolwg gydag adborth ansoddol yr ydym wedi'i ddefnyddio i greu darlun o sut y mae pethau ar hyn o bryd ymhlith Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) twristiaeth yng Nghymru.

3 FSB (2017) Welcome movement in the Budget but unresolved issues remain for Wales
4 Llywodraeth Cymru (2017) Cynllun Gweithredu ar yr Ecnomi

# CEFNDIR

Mae swyddogaethau twristiaeth statudol Llywodraeth Cymru yn dod o dan dwy brif Ddeddf Twristiaeth, **Deddf Datblygu Twristiaeth 1969** a **Deddf Twristiaeth (Hybu Tramor (Cymru)) 1992.**

Mae Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 yn rhoi pwerau a swyddogaethau cyffredinol i Lywodraeth Cymru i:

- annog pobl i ymweld â Chymru a phobl sy'n byw yng Nghymru i dreulio gwyliau yma
- annog darpariaeth amwynderau a chyfleusterau twristiaeth yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido Croeso Cymru, sy'n gofalu am:

- polisi twristiaeth
- annog buddsoddiad
- gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr yng Nghymru.

Mae Croeso Cymru yn gyfrifol hefyd am farchnata Cymru o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae gan y strategaeth twristiaeth i Gymru 'Partneriaeth ar gyfer Twf' [5,6] y weledigaeth ganlynol ar gyfer twristiaeth:

*"Bydd Cymru yn estyn croeso twymgalon, ansawdd eithriadol, gwerth gwych am arian a phrofiadau cofiadwy ac unigryw i bob ymwelydd."*


Mae arolwg o gynnydd yn erbyn y strategaeth[7] yn awgrymu bod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn er 2013. Mae cyfran Cymru o farchnad twristiaeth y DU wedi gwella, a bu twf yn y sector ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog y byddant yn cyrraedd targedau 2020.

Serch hynny, mae yna heriau yn wynebu'r sector, yn arbennig i weithredwyr llai a all fod yn syrthio ar fin y ffordd yn y ffocws ar atyniadau o bwys a digwyddiadau mawr. Mae problemau mwy cyffredin datblygu'r gweithlu a hyd y tymor yn dal i fod yn heriau hefyd.

[5] Llywodraeth Cymru (2012) Partneriaeth ar gyfer Twf.
[6] Llywodraeth Cymru (2016) Arolwg Cynnydd Strategaeth Twristiaeth.
[7] ibid

# HYD Y TYMOR

Mewn ymateb i'n harolwg o'r aelodau, rydym wedi cadarnhau'r patrymau canlynol:




O'r rheini sydd yn datgan "tymor", mae'r mwyafrif yn sôn am dymor sy'n dechrau ym Mawrth neu Ebrill ac yn gorffen yn Hydref neu Dachwedd. Hynny yw, mae mwyafrif llethol eu busnes yn digwydd o fewn ffenestr o chwe mis yn ystod yr haf.

Yn ddiddorol, mae cyfran gweithlu'r ymatebwyr a gyflogir yn dymhorol yn llai nag y gallai rhywun ei dybio oddi wrth natur dymhorol y gwaith.

**Yn fras pa gyfran o'ch cyflogedigion sy'n weithwyr tymhorol? (Cyfartaledd)**



Mae'r ymatebwyr yn amlwg yn amcanu at gael cydbwysedd yn eu pwysau gwaith ar draws y flwyddyn er mwyn cadw talent a chefnogi'u gweithlu.

Mewn ymateb i'r arolwg, fe wnaethom dderbyn nifer o sylwadau ar dymoroldeb, y mae rhai ohonynt wedi'u dangos isod:

*"Mae'n hunllef llwyr cael staff tymhorol felly mae'n rhaid inni gynnig gydol y flwyddyn sy'n golygu ein bod yn llenwi oriau yn y gaeaf."*

*"rydym wedi cyflogi sieff a chogydd yn ddiweddarach, ond ni allwn bellach gynnal person o'r fath gydol y flwyddyn."*

**Mae rheidrwydd clir ar Lywodraeth Cymru/Croeso Cymru i ymchwilio i ffyrdd arloesol o ymestyn y tymor er mwyn i BBaChau allu darparu cyflogaeth ddibynadwy ar hyd y flwyddyn.**

Mae yna ymdeimlad bod rhai BBaChau yn ei chael hi'n anodd i ddenu staff medrus, o safon oherwydd problemau'n ymwneud â thymoroldeb, ac amlygwyd hyn hefyd mewn rhai ymatebion i gwestiynau ynglŷn â phrentisiaethau. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, **awgrymodd rhai BBaChau efallai na fyddant yn gallu cynnig digon o waith "trwy'r flwyddyn" i gefnogi cynllun prentisiaeth.**


O ystyried bod twristiaeth yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut y gallai'i ffocws newydd ar ansawdd gwaith, a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi[8] (a'r Dangosyddion Lles[9]) fod yn berthnasol yn y sector hwn. Gall hyn fod trwy gyllido digwyddiadau lleol, cefnogi creu/datblygu atyniadau bob tywydd, neu gefnogi arallgyfeirio busnesau twristiaeth mewn ffyrdd tebyg i'r hyn sydd wedi'i wneud yn gymharol llwyddiannus gydag amaethyddiaeth a ffermio.

[8] Llywodraeth Cymru (2017) Cynllun Gweithredu ar yr Economi
[9] Llywodraeth Cymru (2016) Sut mae Mesur cynnydd Cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru

# MYNEDIAD AT GYLLID

Fe wnaethom holi ein haelodau a oeddynt wedi derbyn cyllid cyhoeddus.

## A yw eich busnes erioed wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru?




Mae'r ffigurau hyn yn gymharol siomedig, ac yn arwain rhywun i holi ble mae cyllid twristiaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei wario, a pha un a yw'r cyllid yn cael hyd i'w ffordd i BBaChau neu'n cael ei lyncu gan gwmnïau mwy.

Unwaith y caiff y cronfeydd eu harchwilio mae'n dod yn glir paham y gall fod diffyg derbyniad ymhlith BBaChau yng Nghymru. Hyd y gwyddom, mae yna bum prif bot cymorth cyhoeddus i fusnesau twristiaeth yng Nghymru, sef:

| | |
|---|---|
| **CYNLLUN CYMORTH BUDDSODDI MEWN TWRISTIAETH[10]** | Gall y cynllun hwn fuddsoddi dros gyfnod o hyd at 30 mlynedd, mewn prosiectau gwerth £5,000 i £500,000. Bydd y cynllun yn cefnogi hyd at £25% o gost y prosiect.<br>Mae buddsoddiad yn y cynllun ar sail £5,000-£10,000 y Swydd Cyfwerth ag Amser Llawn a Grëir.<br>Mae tua 30% o'r arian yn ad-daladwy dros gyfnod o 15-25 mlynedd.<br>Bwriedir i hyn fod yn brif ffynhonnell cymorth i fusnesau twristiaeth.<br>Yn 2014/15, buddsoddwyd £13.9 miliwn i gefnogi 311 o swyddi[11].<br>Mae nodiadau esboniadol ar gael yma: https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/tourism/160608tiss-guidance-note-en.pdf |
| **CYMORTH BUDDSODDI MEWN AMWYNDERAU TWRISTIAETH[12]** | Bydd y cynllun cymorth Amwynderau yn darparu hyd at 80% o gymorth, gydag uchafswm maint y grant yn £128,000.<br>Mae'i ffocws ar gynlluniau seilwaith, ac fe'i defnyddir fel rheol i gefnogi cyfres o fuddsoddiadau mewn mannau cyhoeddus mewn lleoliadau penodol. |
| **Y GRONFA ARLOESI CYNNYRCH TWRISTIAETH[13]** | Grantiau o £20,000 - £150,000 gyda hyd at 100% o gymorth ar gael.<br>Rhaid i geisiadau fod yn gydweithrediadol a chymorth refeniw ydynt ac ni ellir eu defnyddio i gyllido prosiectau cyfalaf<br>Mae nodiadau esboniadol ar gymhwysedd ar gael yma: https://business-wales.gov.wales/sites/business-wales/files/tourism/RDP_TPIF_2018-2019_Guidance_Note_EN_2017-10-25.pdf |
| **CRONFA YMGYSYLLTU TWRISTIAETH RANBARTHOL[14]** | I hyrwyddo a datblygu cyrchfannau ymwelwyr nodedig, o ansawdd uchel trwy gyflenwi eu cynlluniau rheoli cyrchfan. |
| **CRONFA FUSNES MICRO BYCHAN[15]** | Gall y gronfa hon ddarparu cymorth o rhwng £25,000 a £500,000, gyda hyd at 40% o gost y prosiect yn cael ei buddsoddi.<br>Caiff cymorth ei seilio ar ffigur tybiannol o £10,000 y swydd Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a grëir.<br>Mae nodiadau esboniadol ar gael yma: https://businesswales.gov.wales/tourism/sites/tourism/files/documents/MSBF%20-%20Guidance%20Document%20E%20130617.pdf |

Wrth edrych ar y meini prawf cymhwyster ar gyfer y cronfeydd hyn, a graddau derbyniad ymhlith ein haelodaeth, mae'n dod yn glir fod y cronfeydd hyn yn syml y tu allan i gyrraedd i'r rhan fwyaf o aelodau bach a mwyafrif y busnesau sy'n weithredol mewn twristiaeth yng Nghymru.

Gallai hyd yn oed y *Gronfa Fusnes Micro Bychan*, sydd wedi'i thargedu mewn egwyddor ar y busnesau lleiaf, fynnu bod y rhan fwyaf o'r busnesau lleiaf yn bron dyblu eu maint er mwyn sicrhau cyllid – efallai nad yw hyn yn rhagdybiaeth realistig, yn arbennig os oes problemau'n ymwneud â thymoroldeb. Er enghraifft, mae gan y Gronfa Fusnes Micro Bychan drothwy cyllido lleiaf o £25,000 ac mae wedi'i thargedu i gefnogi 1 FTE am bob £10,000 a fuddsoddir. Mae'r mwyafrif llethol o BBaChau yn cyflogi llai na 5 o bobl.

Mae'n debygol bod mwyafrif y cronfeydd hyn yn cael eu cymryd felly gan gwmnïau sydd eisoes yn gymharol llwyddiannus, ac yn fwy. Mae tystiolaeth a gafwyd gan yr FSB yn awgrymu mai fel yna y mae hi bron yn sicr mewn perthynas â'r Gronfa Fusnes Micro Bychan, a'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth[16]. Tra bod peth gwerth mewn targedu cymorth at gwmnïau mwy, ac yn arbennig atyniadau a all fod yn gallu ymestyn y tymor mewn man arbennig, mae'n glir y bydd y mwyafrif llethol o fusnesau twristiaeth Cymru yn llithro drwy'r rhwyd mewn perthynas â'r cronfeydd hyn, ac nad yw arloesedd gwerthfawr mewn busnesau sydd ar raddfa lai yn cael ei gefnogi.


**Dylai'r cronfeydd hyn gael eu cyfunioni'n glir â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru.** Rydym yn teimlo hefyd y gallai cyfunioni'r cronfeydd hyn â ffigurau creu swyddi tybiannol cymharol uchel fod yn ddi-fudd wrth gefnogi derbyniad. **Dylai cronfeydd amcanu at gefnogi twf cynaliadwy, neu reoli busnesau twristiaeth yn gynaliadwy ac nid canolbwyntio ar dwf cyflym.**

10 https://businesswales.gov.wales/zones/tourism/tiss
11 Llywodraeth Cymru (2015) Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twrisiaeth a Chwaraeon ar Dwristiaeth
12 Llywodraeth Cymru, Cronfa Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twrisitiaeth
13 Llywodraeth Cymru, Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth
14 Llywodraeth Cymru, Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol
15 Llywodraeth Cymru. Cronfa Fusnes Micro Bychan
16 Gweler yr adroddiad hwn yn y Daily Post ar gael yma https://www.dailypost.co.uk/business/business-news/north-wales-tourism-grant-cash-13531002 a gwybodaeth a gafwyd trwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a osodwyd gan yr FSB.

# RÔL SWYDDOGION LLEOL A CHYFLEUSTERAU

Er mwyn cadarnhau pwy oedd cysylltiadau allweddol ein ymatebwyr o fewn y Llywodraeth fe wnaethom ofyn â phwy yr oedd ganddynt gysylltiad.

## A oes gennych gysylltiad â swyddogion yn unrhyw un o'r sefydliadau canlynol?




Mae dau ganfyddiad allweddol yma, yn gyntaf nad oes gan dros 30% o fusnesau unrhyw gysylltiad â phrif ganghennau llywodraeth yng Nghymru. Mae hyn yn golygu heriau wrth gyrraedd allan at y sector, ymgysylltu a chyfathrebu ag ef fel y dangosir gan ymateb negyddol y sector ar y cyfan mewn perthynas â'r awgrym o dreth twristiaeth.

Yn ail, roedd prif gysylltiad mwyafrif yr ymatebwyr gyda swyddog llywodraeth leol, sy'n awgrymu y gall defnyddio'r rhwydweithiau hyn fod y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu cefnogaeth i fusnesau twristiaeth. Yn yr un modd, wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu patrwm rhanbarthol mwy ffocysedig ar gyfer ei Chynllun Gweithredu, dylid rhoi ystyriaeth i gynyddu adnoddau a nifer y mannau cyswllt llinell flaen hyn.

Yn y sylwadau, mae yna awgrymiadau hefyd fod cysylltiadau o fewn Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn chwarae rôl allweddol wrth ddangos y ffordd i fusnesau at y cyllid sydd ar gael. Fe all hyn helpu i egluro hefyd paham y mae cwmnïau mwy (sy'n fwy amlwg yn lleol) yn fwy tebygol o gael gafael ar gyllid.

Mae yna gwestiynau yn codi yma hefyd ynghylch effeithiau posibl y crebachu ar weithgareddau Awdurdodau Lleol oherwydd cyni'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, fe all cau canolfannau croeso gael effaith anghymesur ar fusnesau llai sydd â llai o allu i ymgymryd â'u gweithgaredd marchnata eu hunain[17].


Daw hyn i'r amlwg hefyd pan ofynnwn i ymatebwyr ynghylch Ardrethi Annomestig a Threth Twristiaeth, gan fod yna ymdeimlad canfyddadwy fod busnesau yn talu i mewn ac yn derbyn fawr ddim yn ei ôl.

**Gan symud ymlaen, dylai Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill geisio deall yn well y rôl sydd gan rwydweithiau lleol a chwaraewyr lleol allweddol wrth hwyluso cyllid, a nwyddau cyhoeddus eraill yn y sector hwn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai Awdurdodau Lleol ymgymryd â darparu rhywfaint o'i chynnig twristiaeth.**

[17] Llywodraeth Cymru (2013) Effaith Economaidd Canolfannau Croeso yng Nghymru

# DIRNADAETH O CROESO CYMRU

**A ydych yn gwneud defnydd o frand Croeso Cymru? Er enghraifft yn eich adeiladau, neu ar ddeunydd hyrwyddo?**




*"Fe wnes i ddefnyddio Croeso Cymru ond chawson ni erioed unrhyw fusnes o fod yn rhan o hyn."*

*"gwastraff amser."*

*"Rydym yn tynnu sylw at y ffaith fod gennym ddosbarthiad 5 seren Croeso Cymru"*

Nid yw brand Croeso Cymru yn cael ei weld yn ddefnyddiol i aelodau ar hyn o bryd. Nid ydym wedi gallu meincnodi yn erbyn blynyddoedd/perfformiad blaenorol.

Byddai'n ddefnyddiol mynd yn ôl at y cwestiwn hwn ar ddiwedd ymgyrchoedd marchnata presennol Croeso Cymru, ac i weld maint y cyrhaeddiad i amrywiol wahanol sectorau. Yn fras fe wnaeth rhai o'n hymatebwyr groesawu'r ymagwedd newydd at "flynyddoedd thematig", gan awgrymu ei bod yn ymddangos fod hyn wedi gweithio'n dda.

Un pryder a godwyd gan fusnesau llai yw'r gallu i ddefnyddio'r brand yn iawn – cafwyd awgrym petai mwy o hyblygrwydd yn hyn, y byddai busnesau o'r fath yn dod yn 'llysgenhadon brand' mwy effeithiol dros Gymru.

# TRETH TWRISTIAETH

Wrth siarad â'n haelodau ynghylch "Treth Twristiaeth", y mae Llywodraeth Cymru wedi'i hawgrymu fel posibilrwydd i Gymru, naill ai ar sail genedlaethol, neu leol (ac sydd, yn fwy diweddar, wedi'i chefnogi gan Gyngor Sir Gwynedd[18]) mae'n glir nad yw BBaChau yn teimlo eu bod yn gallu asesu'r effaith bosibl ar eu busnes heb lefel uwch o eglurder ynglŷn â manylion unrhyw dreth bosibl.

Wrth ddatblygu syniadau ar gyfer treth, dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd felly ag ymgyrch gyfathrebu i roi gwybod i BBaChau am y modelau posibl ac effeithiau treth twristiaeth.

Yn y sylwadau, cododd ymatebwyr i'n harolwg bryderon y byddai ymagwedd genedlaethol at dreth twristiaeth yn cosbi rhai ardaloedd yn annheg, ac fe allai danseilio eco-system dwristiaeth fregus. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn bryderus y gallai ymagwedd fwy leol, gyda gwahanol gyfraddau neu feini prawf ar draws gwahanol ardaloedd arwain i bob pwrpas at gystadleuaeth dreth yn y sector yng Nghymru.

*"A welwn ni un Parc Cenedlaethol yn cystadlu ag un arall gyda golwg ar gynyddu masnach trwy ostwng y Dreth Twristiaeth?"*

Mae llawer o ymatebwyr i'n harolwg yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'u masnach yn dod gan ymwelwyr o'r tu mewn i'r DU, ac y gall cynyddu cost Cymru yn gymharol â chyrchfannau eraill yn y DU fod yn anfanteisiol. Er ei bod yn wir fod gan lawer o gyrchfannau Ewropeaidd ryw fath o dreth twristiaeth, nid yw llawer o'n hymatebwyr yn gweithredu yn y farchnad honno.

*"Rwyf yn gorfod codi TAW yn barod."*

*"mae'n rhaid i fusnesau bach sydd prin o fewn yr 'amlen' TAW gystadlu yn erbyn busnesau ychydig yn llai sydd wedi'u heithrio rhag TAW."*

*"ar ben y cynnydd o 171% yn ardrethi busnes a gorfod talu comisiwn o 15% i dalu trefnwyr teithiau ar-lein ni waeth imi fynd i weithio i rywun arall ddim"*

Fel sydd wedi'i gadarnhau mewn man arall, mae llawer o BBaChau yn hynod ymwybodol hefyd o effaith gronnol sawl gwahanol treth ar eu maint elw gweithredol. Mae'r rhan fwyaf o'n hymatebwyr wedi gweld codiadau yn yr atebolrwydd i dalu Ardrethi Annomestig ers yr ailbrisio ar Ebrill 1 2017, ac mae llawer yn gwneud sylwadau ar effaith TAW ar eu busnes. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth y DU wedi dechrau ymgynghori, ar 13 Mawrth 2018, ar effaith TAW a Thollau Teithwyr Awyr (APD) ar dwristiaeth yng Ngogledd Iwerddon[19], ac mae Gweriniaeth Iwerddon yn codi TAW yn ôl cyfradd o 9% ar fusnesau twristiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffactorau hyn yn ofalus wrth barhau i asesu treth twristiaeth.

*"Nid wyf o blaid TT oni bai bod yr arian a godir yn cael ei glustnodi i'w ddefnyddio i wella'r seilwaith i hybu Twristiaeth yng Nghymru h.y. i adfer Canolfannau Croeso, gwella toiledau cyhoeddus, gwella hawliau tramwy h.y. Llwybrau troed, Llwybrau ceffylau a Chilffyrdd ac i wella effeithiolrwydd Bwrdd Croeso Cymru."*

Ar y llaw arall, roedd rhai sylwadau yn fwy cadarnhaol, fel y dangosir uchod. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn agored i'r awgrym o dreth twristiaeth petai'r refeniw yn cael ei ddyrannu'n benodol ar gyfer cymorth yn y maes hwn.

Fe wnaethom holi'r aelodau hefyd ar effaith yr ailbrisiad ardrethi ar eu busnes, gyda'r mwyafrif sy'n talu ardrethi yn nodi eu bod wedi cael codiad, mewn rhai achosion godiadau sylweddol iawn. Er hynny, roedd cymorth Llywodraeth Cymru ar ffurf Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn cael ei groesawu'n gadarnhaol iawn, a'i nodi am ei fod yn lleihau biliau a chodiadau. **Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygio system Ardrethi Annomestig fel bod cylchoedd ailbrisio yn fwy mynych, a bod codiadau yn y biliau yn fwy teg.**

[18] https://www.dailypost.co.uk/news/controversial-tourism-tax-offset-impact-14412250
[19] UK Government (2018) The Impact of VAT and Air Passenger Duty on Tourism in Northern Ireland


# CASGLIAD

Mae Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru tua hanner ffordd drwy gyfnod eu strategaeth bresennol, ac mae yna arwyddion calonogol eu bod wedi ac yn cael effaith gadarnhaol ar y sector twristiaeth drwyddo draw yng Nghymru. Serch hynny, wrth inni symud i ail hanner y cyfnod cyflawni, a'r buddugoliaethau hawdd sydd wedi'u cael bydd hi'n bwysig ystyried sut i symud ymlaen.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi newydd yn gosod tasg hefyd i "Ddatblygu Economaidd" yng Nghymru mewn ffyrdd newydd a fydd â chanlyniadau posibl i'r sectorau twristiaeth ac yn galw am ymagwedd fwy holistaidd at yr economi sy'n ystyried effeithiau y tu hwnt i swyddi a gwerth ychwanegol gros (GVA).

Mae FSB Cymru wedi gofyn i Lywodraeth Cymru sut y gall cymorth gael ei gyflunio'n well i gynorthwyo'r hunangyflogedig, a'r bobl a'r busnesau hynny ar daith i ddod yn gwmnïau maint canolig. 'Dyw hyn ddim llai gwir yn y sector twristiaeth nag yn rhywle arall yn yr economi, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y sector i rai economïau gwledig.

Mae'r FSB wedi galw hefyd i'n swyddfeydd tramor dderbyn gorchwylion cliriach trwy strategaeth masnach a buddsoddi[20]. Ble mae'r swyddfeydd hyn yn eistedd mewn marchnadoedd allweddol ar gyfer ymwelwyr twristaidd, **mae'n hanfodol hefyd eu bod yn derbyn y gorchwyl o gyflwyno delwedd Cymru fel lle i ymweld ag ef**.




[20] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s66062/EIS5-21-17p2%20Federation%20of%20Small%20Businesses.pdf

# ARGYMHELLION

1. **Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn ymdrechion i "ymestyn" y tymor yng Nghymru, gan yr ymddengys fod i hyn gysylltiadau clir â chyflogaeth o ansawdd gydol y flwyddyn a darpariaeth prentisiaethau yn y sector.**
2. **Dylai cyllid gael ei ailgyfeirio i ganolbwyntio ar dwf cynaliadwy a rheolaeth, mae targedau swyddi yn ddi-fudd ac yn cau'r mwyafrif llethol o BBaChau allan.**
3. **Mae angen mynd yn ôl at y strategaeth ar gyfer twristiaeth o ystyried y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac amgylchiadau economaidd newidiol Cymru.**
4. **Dylai Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru ymgymryd ag astudiaeth i asesu eu presenoldeb brand o fewn y sector BBaChau yng Nghymru.**
5. **Wrth ymgymryd â gweithgaredd yn y sector, dylai Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru ystyried y cyfrwng gorau ar gyfer y gweithgaredd hwnnw yn ofalus. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu fod y "swyddogion" gyda'r treiddiad gorau i'r sector yn gweithio i Awdurdodau Lleol.**
6. **Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer "treth twristiaeth" dylai Llywodraeth Cymru geisio cyfathrebu'n agored gyda BBaChau yn y sector, trwy gyfathrebu uniongyrchol a thrwy weithio gyda grwpiau cynrychiadol.**
7. **Dylai swyddfeydd tramor mewn marchnadoedd allweddol dderbyn y gorchwyl clir o gyflawni ar amcanion yn gysylltiedig â marchnad twristiaid Cymru, e.e. cynnydd yn niferoedd ymwelwyr neu gynnydd yn hyd yr arhosiad o'r gwledydd hynny.**
8. **Dylai Llywodraeth y DU ddatganoli cyfrifoldeb am Dollau Teithwyr Awyr (APD) i Lywodraeth Cymru.**
9. **Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ystyriaeth i sut y gellir trefnu bod adnoddau brand ar gael yn rhwyddach i BBaChau ac yn cael eu defnyddio'n haws ganddynt. Yn yr un modd, dylai ystyried sut y gall gyfathrebu negeseuon brand allweddol yn well i hyrwyddo perchenogaeth y brand gan fusnesau.**

FSB Wales
1 Cleeve House, Lambourne Crescent
Caerdydd, CF14 5GP
T/Ff: 02920 747406
M/S: 07917 628977
www.fsb.org.uk/wales
Twitter: @FSB_Wales